Jill Evans ASE
adroddiad
blynyddol 07|08
Yma i Chi
Y Gwyrddion | CRhE
yn y Senedd Ewropeaidd
JillEvans.net
CwmRhondda.com
Plaid

Yma I Chi

Rwy'n gobeithio bydd yr adroddiad yma yn dweud rhywbeth wrthoch chi am y gwaith rwy'n ei wneud fel Aelod Seneddol Ewropeaidd dros Gymru. Mae'n fraint ryfeddol i gynrychioli ein cenedl yn Ewrop. Fel partner yn llywodraeth Cymru'n Un, mae Plaid Cymru yn gyrru Cymru ymlaen ar sawl lefel - ac mae hyn yn amlwg yn Ewrop hefyd. Roedd ennill statws rhannol swyddogol i'r Gymraeg yn un enghraifft. Mae hyn yn golygu y byddwch yn gallu defnyddio'r iaith Gymraeg mewn sefydliadau Ewropeaidd os mai hynny yw'ch dymuniad. Mae hwn yn gam hanesyddol ymlaen ac yn rhywbeth rwy'n falch iawn o fod wedi chwarae rhan ynddo.

Bu gweithio gyda'n chwaer bleidiau yng Nghynghrair Rhydd Ewrop (EFA) a'r Gwyrddion yn Senedd Ewrop yn gynhyrchiol ac effeithiol. Mae ein pleidiau EFA mewn llywodraeth erbyn hyn mewn saith gwlad a ffurfiodd ein gweinidogion Grŵp Caeredin er mwyn cysylltu ag ystod eang o faterion. Mewn blwyddyn ansicr arall i'r Undeb Ewropeaidd, gyda'r bleidlais yn Iwerddon yn troi yn erbyn Cytundeb Lisbon, mae'r rhan sydd gyda ni i chwarae fel cenhedloedd bychain yn hanfodol. Roedd Plaid Cymru o blaid cynnal refferendwm yng Nghymru ar gytundeb yr Undeb Ewropeaidd ond fe wadwyd hyn i ni gan lywodraeth Llafur Llundain.

Mae'r argyfwng ariannol wedi dominyddu misoedd ola'r flwyddyn. Rydym yn ei chael hi'n anodd yn ystod y wasgfa credyd a'r wasgfa hinsawdd. Mae gan ac fe fydd gan Ewrop ran hanfodol i'w chwarae wrth adeiladu economi gynaliadwy yn ogystal ag arwain y frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda fy nhîm staff i wneud ein swyddfeydd mor ynni effeithlon ag sy'n bosibl. Fel aelod o Gomisiwn Cymru ar Newid Hinsawdd, rwyf wedi bod yn ymwneud â'r gwaith i dorri ein hallyriannau CO2 o 3% ar ôl 2011.

Diolch i'r nifer o sefydliadau ac unigolion yng Nghymru sydd wedi gweithio gyda fi, ysgrifennu e-byst ataf neu fy ffonio i amlygu materion o bwys, fel hybu cynnyrch Cymreig, gwella ein hiechyd a'n hamgylchedd, cael gwell hawliau i weithwyr, heddwch a chyfiawnder. Rwyf yma i chi. Po fwyaf o gyswllt a gaf gan etholaethwyr yng Nghymru, gorau y gallaf weithio ar eich rhan.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r tîm o Aelodau Seneddol (yn San Steffan), Aelodau Cynulliad, Cynghorwyr, Staff ac Aelodau ar bob lefel, yn ogystal â chyfeillion a staff yn y grŵp Gwyrddion/EFA yn Senedd Ewrop. Yn bennaf hoffwn ddiolch fy nhîm innau, Sara Davies, David Bradley, Sara Medi Jones, Darren Jones ac Ann Rees Sambrook am eu cymorth cyson a rhagorol.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn ddiddorol a chyffrous arall yn Senedd Ewrop ac yng Nghymru. Rwyf wedi mwynhau cwrdd â phobl ymhob rhan o'r wlad a bod yn llais i Gymru yn Ewrop - eich llais chi yn Ewrop.

Jill Evans

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu. Dyluniwyd gan AiGN T: 07775 558548. Argraffwyd gan Hazel Tree Press T: 029 2081 1058

Staff a Manylion Cyswllt

Sara Davies
Ymchwilydd a Phennaeth Staff

ASP 8H153
European Parliament
Rue Wiertz
1047 Brussels
T: 0032 22847103
Ff: 0032 22849103
jill.evans-assistant2@europarl.europa.eu

Sara Medi
Cynorthwydd Ymchwil

ASP 8H153
European Parliament
Rue Wiertz
1047 Brussels
T: 0032 22847103
Ff: 0032 22849103
jill.evans-assistant@europarl.europa.eu

David Bradley
Swyddog y Wasg

65 Stryd y Ffynnon
Rhuthun
LL15 1AG
T: 01824 709700
Ff: 01824 704235
ywasg@jillevans.net

Darren Jones
Swyddog Etholaeth

45 Heol Gelligaled
Ystrad
Rhondda
CF41 7RQ
T: 01443 441395
Ff: 01443 441395
darren@jillevans.net

Ann Rees Sambrook
Swyddog Gweinyddol

23 Stryd Fawr
Heol Chancery
Aberteifi
SA43 1HD
T: 01239 623611
Ff: 01443 441395
swyddfa@jillevans.net

Cymru'n Gwneud Ei Marc

Daeth y flwyddyn ddiwethaf â nifer o lwyddiannau i Gymru: Camp Lawn arall a pherfformiad gwych athletwyr Cymru yn y gemau Olympaidd a Pharalympaidd! Ac wrth gwrs, Caerdydd yn cyrraedd rownd derfynol Cwpan yr FA, Abertawe yn ennill dyrchafiad a'n tîm pêl-droed dan 21 yn ennill eu grŵp yn rowndiau rhagbrofol Pencampwriaeth Ewrop.

Gwelodd Jill drosti'i hun waith ardderchog pobl ifanc yng Nghymru. Siaradodd Jill gyda nifer o sefydliadau ieuenctid a'u cefnogi, gan gynnwys noddi cit Tîm Pêl Droed Ieuenctid Ton Pentre, fel y gwelir yn y llun. Noddodd Jill nifer o bobl ifanc o Gymru i wneud profiad gwaith yn ei swyddfeydd ym Mrwsel a Strasbwrg. Mae eu gwaith a'u presenoldeb yn sicr wedi codi proffil Cymru yn Ewrop.

Trefnodd bobl Roma ifanc o Sir Benfro, fforwm yn Senedd Ewrop.

Unwaith eto, derbyniodd Jill nifer o grwpiau o Gymru ar ymweliadau i'r Senedd ym Mrwsel a Strasbwrg a galluogodd i gynrychiolwyr o Gymru roi tystiolaeth mewn pwyllgorau.

Staff a myfyrwyr o Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

Bwyd a Ffermio

Ynghyd ag Aelodau Seneddol Ewropeaidd o'r Alban, Iwerddon a Lloegr, ymgyrchodd Jill yn llwyddiannus dros gael gwaharddiad ar fewnforion cig eidion o Frasil i Ewrop oherwydd safonau diogelwch ac iechyd. Nawr mae'r Aelodau Seneddol Ewropeaidd wedi lansio ymgyrch i wrthwynebu tagio electronig gorfodol ar ddefaid a allai achosi problemau anferth i ffermwyr yng Nghymru. Noddodd Jill stondin yn y Sioe Frenhinol Amaethyddol ac ymwelodd â sawl sioe Gymreig yn ystod yr haf. Croesawodd gynigion Ewropeaidd newydd i roi ffrwyth a gynhyrchwyd yn lleol am ddim i ysgolion.

Cefnogodd Jill y casglwyr cocos yng Nghilfach Aber Llwchwr yn eu hymdrechion i rwystro niwed pellach gan lygredd i'r cocos. Cwrddodd â physgotwyr hefyd er mwyn trafod y problemau maent yn eu gwynebu ac fe gomisiynodd adroddiad ar y diwydiant pysgota yng Nghymru. Noddodd Jill gynghrair y byd ar amrywiaeth y blaned ar amaeth ac ardaloedd yn rhydd o gnydau GM yn Bonn ac mae hi'n parhau i ymgyrchu yn erbyn bwydydd GM a bwydydd GM i anifeiliaid. Gwrthwynebodd defnyddio bwyd wedi'i gynhyrchu o anifeiliaid wedi'u clonio.

Cymraeg - Mae'n Swyddogol

O'r diwedd, rydym wedi ennill statws rhannol swyddogol i'r Gymraeg yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae hi'n bosibl i Weinidogion siarad Cymraeg yng Nghyngor y Gweinidogion ac i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ohebu gyda'r Cyngor a chyn bo hir y Comisiwn hefyd. Bu Jill yn gwthio'r Senedd yn galed i'w cael i fabwysiadu'r rheolau newydd yma, ac fe'i cefnogwyd gan fwy na saithdeg unigolyn a sefydliad yng Nghymru sydd wedi ysgrifennu at Lywydd Senedd Ewrop.

Ymgyrchu

Mae Jill wedi gwahodd nifer o grwpiau o Gymru i Frwsel er mwyn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Deisebau Senedd Ewrop. Gall y pwyllgor gynnal ymchwiliad i mewn i achosion o dorr cyfraith Ewropeaidd.

Ymhlith rhai o'r materion a godwyd eleni oedd y lein beipiau LNG, y derfynell LNG yn Aberdaugleddau, safle tirlenwi Hafod a Phwll Glo Brig Ffos-y-Fran ym Merthyr. Mae'r materion yma oll

yn cael eu hymchwilio'n bellach gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Cododd Jill hefyd fater datblygiad tai yn Llanelli gyda'r Comisiwn.

Newid Hinsawdd

Penodwyd Jill yn aelod o Gomisiwn Newid Hinsawdd Cymru sydd yn cynghori llywodraeth Cymru'n Un ar ymladd newid hinsawdd a thrin ei effeithiau. Fel aelod o Bwyllgor Amgylchedd Senedd Ewrop, Jill yw llefarydd grŵp y Gwyrddion/EFA ar Ddal a Chadw Carbon (CCS), rhan o'r pecyn ynni i leihau allyriannau carbon gan 20% erbyn 2020.

Siaradodd Jill mewn sawl cyfarfod cyhoeddus ar newid hinsawdd yn ystod y flwyddyn. Gweithiodd yn agos gyda grwpiau amgylcheddol a sefydliadau anllywodraethol (NGOs) sy'n gwneud gwahaniaeth mawr yng Nghymru a thrwy'r byd. Cyn cynnal y bleidlais ar newid hinsawdd ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, lansiwyd un o'r lobiau amgylcheddol mwyaf erioed "Mae'n Bryd i Arwain" ("Time to Lead") - oedd yn llwyddiannus iawn.

Ar Draws Y Byd

Ym mis Chwefror, ymwelodd Jill â Gaza ym Mhalesteina ac fe alwodd eto am ddiwedd i'r gwarchae sydd wedi achosi trychineb dyngarol gyda thri chwarter o'r boblogaeth yn ddibynnol ar gymorth bwyd gan y Cenhedloedd Unedig. Galwodd Jill hefyd am ryddhau ar unwaith 11,000 o filwyr Palesteinaidd sydd ar hyn o bryd yn gaeth mewn carchardai yn Israel, gan gynnwys 44 aelod etholedig o Gyngor Deddfwriaethol Palesteina.

Yn Strasbwrg, cyflwynodd Jill neges o heddwch gan eglwysi yng Nghymru i brif Mufti Syria. Cwrddodd â'r Archesgob Ruben Salazar Gomez o Golombia ym mis Mai ac fe llofnododd lythyr i Arlywydd Colombia i'w annog i wneud rhywbeth ynglŷn â llofruddiaethau undebwyr llafur, gwleidyddion, a phobl sydd yn gweithio dros hawliau dynol.

Gyda sylw'r byd ar Tseina ar gyfer y gemau Olympaidd, ymunodd Jill a Llywydd Plaid Cymru, Dafydd Iwan, â'r nifer o alwadau am ryddid i Tibet.

Na I Arfau Niwclear

I gofnodi hanner can mlwyddiant taith gyntaf CND i ganolfan arfau niwclear Aldermaston, cynhaliwyd gwrthdystiad yno ar Llun y Pasg. Roedd Jill yno fel Cadeirydd CND Cymru.

Dychwelodd i ganolfan llongau tanfor niwclear Faslane ar ddiwedd y gwarchae a barodd am flwyddyn i gadarnhau gwrthwynebiad llwyr y Blaid i raglen arfau dinistr llwyr Llywodraeth Prydain.

Gwrthwynebodd Jill breifateiddio hyfforddi milwrol a'r academi hyfforddi amddiffyn fydd yn cael ei redeg gan gwmnïau preifat, gan gynnwys gwneuthurwyr arfau.

Siaradodd yng Ngŵyl Heddwch Cymru Gyfan ym Mangor ym mis Hydref ac mae hi'n ymgyrchu dros Sefydliad Heddwch Cymreig ar hyn o bryd.

Diwygio'r Senedd

Mae Jill yn aelod o'r Ymgyrch Dros Ddiwygio'r Senedd sydd yn gweithio gyda'r bwriad o gael mwy o atebolrwydd, effeithlonrwydd a bod yn fwy agored. Mae hi o blaid cael rheolau llymach yn ymwneud â lobïwyr.

Mae Jill wedi ymgyrchu i ddod ag arfer y Senedd o symud rhwng Brwsel a Strasbwrg bob mis i ben, gan fod hyn yn costio £160 miliwn o bunnoedd ac yn cynhyrchu dros 20,000 tunnell o allyriannau CO2 yn flynyddol.

DINAS